Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

26.05.17

Annwyl Alun

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Mai. Rwy'n siomedig bod y llythyr hwn wedi'i anfon y diwrnod ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adrodd yng Nghyfnod un, sydd wedi atal y wybodaeth hon rhag bod yn rhan o ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid.

Mae'r newidiadau o ran costau ac arbedion a amlinellir gennych yn eich llythyr yn rhai sylweddol ac maent yn effeithio'n sylweddol ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Mae'r wybodaeth a amlinellir yn eich llythyr yn newid goblygiadau ariannol cyffredinol y Bil o arbediad, i gost. Yn ychwanegol at hyn mae'r gost yn nodedig, sef £8,279,250 (dros y cyfnod gweithredu). Yn amlwg, nid yw'r newidiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y gwaith craffu yng nghyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid, ond byddent wedi bod yn rhan allweddol o ystyriaethau'r Pwyllgor.

Rydych yn awgrymu yn eich llythyr y bydd y gost hon yn codi gan Lywodraeth Cymru ac y bydd yn cael ei thalu yn sgîl y pecyn ariannu o £20 miliwn i weithredu'r Bil, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Mae hyn yn codi rhagor o gwestiynau ynghylch beth yw diben y pecyn ariannu £20 miliwn hwn. Yn eich llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 13 Mawrth 2017 roeddech yn amlinellu sut y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddosrannu. Rwy'n cymryd yn ganiataol y bydd angen ystyried hyn eto, ac felly byddwn yn gofyn am eglurhad ar y mater hwn.

Rwy'n deall bod y newidiadau hyn wedi cael eu gwneud yn dilyn y pryderon a godwyd gan SNAP Cymru yn ystod y gwaith craffu yng Nghyfnod 1, ond nid yw hyn yn golygu na ddylid craffu ar y newidiadau hyn. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â'r £20 miliwn o arian ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, a'r camgymeriadau costio a nodwyd yn fuan cyn eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, yn golygu na all rhanddeiliaid, nac Aelodau'r Cynulliad, fod yn sicr o ddilysrwydd costiadau'r Llywodraeth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rwyf hefyd yn pryderu eich bod yn nodi yn eich llythyr ei bod yn parhau'n bosibl y gall yr amcangyfrif a ddarparwyd gennych "newid", ac nad oes gennym, felly, ddarlun cyflawn o hyd o gostau net y Bil. Nodaf hefyd, yn eich llythyr eich bod yn bwriadu diweddaru'r RIA ar ôl y trafodion yng nghyfnod 2, a chyn y trafodion yng Nghyfnod 3. Credaf, fodd bynnag, y dylai Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig gael ei gyhoeddi cyn y ddadl yng nghyfnod un, a phe na bai hyn yn bosibl, y dylech o leiaf oedi cyn cynnig penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil hwn nes bod crynodeb wedi'i ddiweddaru o gostau wedi cael ei ddarparu a bod cyfle i graffu arno wedi'i ganiatáu. Pe baech yn barod i ohirio'r cynnig penderfyniad ariannol, hoffwn eich gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher 7 Mehefin am 11.30 i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ynghylch y mater hwn, ac rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

Simon Thomas
Cadeirydd